Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | South Wales Fire and Rescue Service

# CYNORTHWYYDD LLYWODRAETHU GWYBODAETH A CHYDYMFFURFEDD

**Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol**

**GRADD 7: £22,627 - £24,491 y flwyddyn**
(A fyddech cystal â nodi fod pob cyflog yn amodol ar Werthusiad Swydd)

**Dros dro am 6 mis**

**37 awr yr wythnos**

Mae cyfle cyffrous wedi codi i benodi Cynorthwyydd Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfedd o fewn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol,Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am ddarparu hydwythdedd ychwanegol a chefnogaeth weinyddol i'r Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfedd mewn materion sy'n ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfedd, gan sicrhau cydymffurfiad â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), Deddf Diogelu Data 2018 a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cynorthwyo ar faterion yn ymwneud â rheoli gwybodaeth yn effeithiol, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) gadw a gwaredu cofnodion, rhannu gwybodaeth a datgelu gwybodaeth. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus Wybodaeth am Ddiogelu Data a Deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth a phrofiad profedig o weithio mewn Rôl Weinyddol.

Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gweithio i Ni /Swyddi Gwag Diweddaraf ar ein gwefan ar www.decymru-tan.gov.uk

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ychwanegol, mae croeso i chi i gysylltu â'r Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a Chydymffurfedd, Rachel Trusler ar 01443 232213 neu drwy e-bost: r-trusler@decymru-tan.gov.uk.

Y dyddiad cau i dderbyn ffurflenni cais yw **12:00, canol dydd, 15/07/2021.** Mae'r dyddiad ar gyfer y cam dethol eto i'w gadarnhau. Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy law e-bost: personel@decymru-tan.gov.uk

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus fod yn destun gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Llwyddiannus yn ogystal â phrawf cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Rydym yn sefydliad sy'n gyfeillgar i'r teulu ac mae system gweithio hyblyg mewn grym.

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.**

hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG